Ffurflen gais
Trwydded asiant

Darllenwch y cyfarwyddiadau canlynol yn gyntaf:

Cyn llenwi'r ffurflen hon, adolygwch y canllawiau sydd ar gael yn adran 8. Mae seren (*) wrth ymyl cwestiwn yn nodi bod canllawiau ar gael. Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio i ddod yn drwyddedig fel asiant yng Nghymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon i ddiweddaru'ch cyfrif defnyddiwr a'ch proffil asiant Rhentu Doeth Cymru.

Adran 1 - Manylion asiant	
Ydych chi'n gwneud cais am	☐ Trwydded cyntaf ☐ Adnewyddu trwydded
Ydych chi'n gwneud cais fel*	☐ Unigolyn (ewch i adran 1.1) ☐ Cwmni (ewch i adran 1.2) ☐ Elusen (ewch i adran 1.2) ☐ Ymddiriedolaeth (ewch i adran 1.2)
Enw cyfreithiol llawn	Teitl ☐ Enw cyntaf ☐ Enw(au) canol: ☐ Cyfenw ☐
Enwau eraill sydd wedi bod gennych	
Dyddiad geni	(DD/MM/BBBB)
Cyfeiriad gohebu	Cod post ☐☐☐☐☐☐☐
Rhif ffôn	
E-bost	
A fyddech cystal ag ddarparu un o'r canlynol	Rhif trwydded yrru ☐ Rhif yswiriant gwladol ☐ Rhif pasbort ☐
Dewis iaith	Gohebiaith: ☐ Cymraeg ☐ Saesneg ☐ Dwyieithog Ar lafar: ☐ Cymraeg ☐ Saesneg

Adran 1.2 – Cwmni, elusen neu ymddiriedolaeth

Rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau gan ***Prif Ddefnyddiwr** sef gyfarwyddwr cwmni, ymddiriedolwr arweiniol neu uwch berson o fewn yr elusen.

Enw a rôl y person sy'n cwblhau'r ffurflen hon	Teitl Enw cyntaf Enw(au) canol Cyfenw Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) Rôl (teitl swydd)
Enw'r sefydliad	
Rhif cofrestru'r busnes*	
Cyfeiriad gohebu	Cod post
Cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa	Yr un fath â chyfeiriad gohebu? Ydy ☐ Nac ydy ☐ Os na, nodwch y cyfeiriad isod Cod post
Rhif ffôn	
E-bost	

Adran 2 - Eich portffolio a'ch mesurau diogelu busnes

Dewiswch yr opsiwn sy'n eich disgrifio orau*

- ☐ Asiant masnachol
- ☐ Asiantaeth osod cymdeithasol
- ☐ Asiantaeth gosod yn unig
- ☐ Rheoli eiddo perthynas yn unig

Nifer yr eiddo rhent y mae'r asiant yn eu gosod/rheoli yng Nghymru		**Nifer yr eiddo rhent lle mae'r asiant yn gwneud gweithgareddau gosod yn unig ar eu cyfer yng Nghymru**		**Nifer yr eiddo lle mae'r asiant yn gwneud gweithgareddau gosod yn unig ar eu cyfer yng Nghymru**	

Rhestr Eiddo a Rheolir

Rhaid i chi ddiweddaru ac uwchlwytho rhestr eiddo a reolir o leiaf unwaith bob 12 mis. Cofiwch gynnwys yr eiddo yr ydych yn ei reoli ar ran eraill yn unig - peidiwch â chynnwys eich eiddo eich hun neu eiddo a osodir yn unig. Os oes gennych eich eiddo eich hun dylai'r rhain fod mewn cofrestriad landlord ar wahân fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Mae fflat un ystafell yn uned sengl mewn eiddo sy'n cynnwys lle byw / cysgu y mae gan y preswylydd yr hawl i'w feddiannu'n llwyr. Fodd bynnag, mae'r tenant (deiliad-contract) yn rhannu rhai cyfleusterau â deiliaid eraill yn yr adeilad e.e. cegin a/neu ystafell ymolchi.

Enw'r landlord	Rhif ffôn y landlord	Cyfeiriad y landlord	Cyfeiriad e-bost y landlord (gadewch yn wag os nad oes e-bost ar gael)	Cyfeiriad yr eiddo rhent a chod post	A yw'r landlord wedi'i gofrestru? (Y/N)	Os ydych yn rheoli eiddo ar gyfer perthnasau yn unig, nodwch eich perthynas i'r landlord	Yw'r eiddo hwn yn 'Fflat Un Ystafell'? (Y/N)

I gyflwyno cais cyflawn, mae'n ofynnol i chi lanlwytho tystiolaeth bod gennych bob un o'r tri mesur diogelu busnes wedi'i rhestru isod (oni bai bod eithriad yn berthnasol). Bydd methu â gwneud hynny'n golygu bod eich cais yn cael ei ystyried yn anghyflawn a bydd yn cael ei ddychwelyd atoch nes bod y dystiolaeth yn cael ei darparu.

Ydych chi, yr ymgeisydd, yn aelod o gorff proffesiynol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, rhowch enw'r aelodaeth a'r dyddiad terfyn.

Darparwr aelodaeth:	Dyddiad terfyn:

Os na, rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'ch cais. Dylai'r rhain gynnwys:

- diogelwch arian cleientiaid
- yswiriant indemniad proffesiynol
- aelodaeth o gynllun gwneud iawn

Rhaid i'r dystiolaeth hon fod ar ffurf tystysgrif polisi neu amserlen bolisi, gan amlinellu'n glir y math o ddiogelwch sydd wedi'i gynnwys. Dylai pob dogfen fod yn gyflawn ac yn enw'r ymgeisydd.

☐ **Ticiwch yma er mwyn rhoi eich caniatâd i Rhentu Doeth Cymru arddangos hwn ar y gofrestr gyhoeddus**

Ceir rhagor o wybodaeth am fesurau diogelu busnes mewn canllawiau yn adran 8.

Nodwch yr holl gyfeiriadau swyddfa a ddefnyddir gan y cwmni ar gyfer gosod a rheoli busnes eiddo yng Nghymru

Cod post ☐☐☐☐☐☐☐

Cod post ☐☐☐☐☐☐☐

Cod post ☐☐☐☐☐☐☐

Adran 3 - Manylion hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn rhan annatod o'ch cais am drwydded. Rhaid i chi ddangos eich bod chi ac unrhyw gyflogeion wedi dilyn hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru cymeradwy cyn cyflwyno cais. Heb y dystiolaeth hon ar gyfer **pob** cyflogai, ni ellir prosesu eich cais. Mae gofynion ychwanegol ar gyrff corfforaethol ac ymddiriedolaethau. Gweler y canllaw adran 8.

Rwyf, fel yr ymgeisydd, wedi:

i) Cwblhau hyfforddiant yn uniongyrchol drwy Rhentu Doeth Cymru caiff hwn ei ychwanegu at eich cais yn awtomatig ☐

a/neu

ii) Cwblhau hyfforddiant drwy ddarparwr hyfforddiant allanol ac wedi atodi tystiolaeth ☐

Pa hyfforddiant* wnaethoch chi gwblhau?

Hyfforddiant trwydded cyntaf ☐ Hyfforddiant ail-drwyddedu ☐

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer adnewyddu trwydded ☐

Faint o staff* (neu aelodau o'r Ymddiriedolaeth) sy'n gwneud gweithgareddau gosod a rheoli?

Os nad oes gennych gyflogeion, ewch i adran 4.

Gweithiwr 1

Mae taflenni ychwanegol ar gael ar ddiwedd y ffurflen hon. Gweler canllawiau yn adran 8.

Teitl | Enw cyntaf | Enw(au) canol

Cyfenw | Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) | Rôl (teitl swydd)

Dewis iaith: Saesneg ☐ Cymraeg ☐

A yw'r person hwn wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy neu wedi archebu hyfforddiant cymeradwy gyda Rhentu Doeth Cymru? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os oes, pa opsiwn hyfforddi sydd wedi'i gwblhau? ☐ Hyfforddiant trwydded gyntaf ☐ Hyfforddiant ail-drwyddedu ☐ DPP (CPD) ar gyfer adnewyddu

Os na, mae angen atodi tystiolaeth hyfforddiant* i'r ffurflen hon.

Os nad yw wedi'i gwblhau eto, pa hyfforddiant maen nhw'n bwriadu ei wneud a phryd maen nhw'n disgwyl ei gwblhau erbyn

Dyddiad

Gweithiwr 2

Teitl | Enw cyntaf | Enw(au) canol

Cyfenw | Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) | Rôl (teitl swydd)

Dewis iaith: Saesneg ☐ Cymraeg ☐

A yw'r person hwn wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy neu wedi archebu hyfforddiant cymeradwy gyda Rhentu Doeth Cymru? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os oes, pa opsiwn hyfforddi sydd wedi'i gwblhau? ☐ Hyfforddiant trwydded gyntaf ☐ Hyfforddiant ail-drwyddedu ☐ DPP (CPD) ar gyfer adnewyddu

Os na, mae angen atodi tystiolaeth hyfforddiant* i'r ffurflen hon.

Os nad yw wedi'i gwblhau eto, pa hyfforddiant maen nhw'n bwriadu ei wneud a phryd maen nhw'n disgwyl ei gwblhau erbyn

Dyddiad

Adran 4 - Clywed am ni

Sut y clywsoch am y gofyniad i gael trwydded?

- ☐ Awdurdod lleol
- ☐ Chwilotwr
- ☐ Ffrind / cydweithiwr
- ☐ Cyswllt uniongyrchol gan Rhentu Doeth Cymru
- ☐ Cymdeithas landlordiaid
- ☐ Cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Fforwm / digwyddiad landlordiaid
- ☐ Asiant gosod / rheoli
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

Adran 5 - Dull talu

Ffi sy'n daladwy

Mae'r ffi sy'n ddyledus yn seiliedig ar nifer y rhai a reolir eiddo. Cyfeiriwch at y tabl ffioedd sydd ar gael yn y canllawiau am y ffi briodol ar gyfer eich cais

Math y taliad

☐ Siec amgaeedig wedi'i gwneud yn daladwy i Rhentu Doeth Cymru

☐ Cerdyn debyd/credyd (Visa, MasterCard neu Maestro)

Os dewiswch yr opsiwn hwn gallwch sganio ac anfon eich tystysgrifau cais a hyfforddi yn uniongyrchol i rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk. Byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn prosesu'ch cais. Rhowch yr amser a'r rhif cyswllt gorau isod.

Peidiwch â darparu manylion cerdyn yma.

Adran 6 - Datganiadau

1. Datganiad o addasrwydd a phriodoldeb

Cyn y gall yr awdurdod trwyddedu roi trwydded, rhaid iddo benderfynu a yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol fel y'i diffinnir yn adran 20 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

At y diben hwn, rhaid i chi ddatgan a oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi, neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi neu a arferai fod yn gysylltiedig â chi (boed ar sail bersonol, gwaith neu ar sail arall sy'n berthnasol).

(a) wedi cyflawni unrhyw drosedd sy'n cynnwys:
i. twyll neu anonestrwydd arall,
ii. trais, arfau tanio neu gyffuriau
iii. unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n arwain at ofynion hysbysu)

(b) wedi gwahaniaethu neu aflonyddu'n anghyfreithlon ar sail unrhyw nodwedd a ddiogelir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, neu erlid person arall yn groes i'r Ddeddf, neu'n gysylltiedig a pharhad unrhyw fusnes

(c) torri unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â thai neu landlordiaid a thenant, megis:
i. Troi tenant allan yn anghyfreithlon

ii. Cael gwrthod trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth neu drwydded ddetholus dan Ddeddf Tai 2004
iii. Cael diddymu trwydded am dorri unrhyw amodau dan Ddeddf Tai 2004
iv. Bod yn destun Gorchymyn Rheoli dan Ddeddf Tai 2004
v. wedi methu cydymffurfio â Hysbysiad Tai (angen gwaith trwsio ayb) a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol
vi. Bod yn destun cwynion gan denantiaid neu ffynonellau eraill am achos difrifol o dor-amod neu sawl achos o dor-amod trwydded dan Ddeddf Tai 2004.

☐ **Rwy'n cadarnhau nad yw'r un o'r uchod yn berthnasol i mi, nac unrhyw un sy'n gysylltiedig â mi neu a arferai fod yn gysylltiedig â mi (boed ar sail bersonol, gwaith neu ar sail arall)**

Os oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol, mae'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth ategol berthnasol isod i esbonio pam. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei hasesu gan Rhentu Doeth Cymru. Ni fydd materion a amlygwyd o reidrwydd yn eich atal rhag cael eich trwyddedu; tystiolaeth yn cael ei hasesu fesul achos. **Os oes gennych gollfarnau nas treuliwyd, rhowch dystysgrif gwasanaeth gwahardd data (dyddiedig o fewn y mis diwethaf) gyda'ch cais.**

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i chi am ragor o wybodaeth i asesu eich cais, a'r hawl i gasglu gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys hanes troseddol gan gyrff rheoleiddio megis awdurdodau lleol a'r heddlu pan fo'n briodol. Gellir ystyried gwybodaeth a gesglir fel hyn wrth benderfynu ar gais am drwydded.

Sylwer nad oes angen datgan fel arfer euogfarnau sydd wedi'u treulio yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Fodd bynnag, efallai y bydd angen datgan rhai euogfarnau sydd wedi'u treulio ar gais, fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Casglu a Defnyddio Gwybodaeth am Gollfarnau Rhent Doeth Cymru, sydd ar gael ar wefan Rhentu Doeth Cymru neu ar gais. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried collfarnau sydd wedi'u treulio os ydynt yn berthnasol i osod a rheoli eiddo yng Nghymru.

Wrth ddarparu manylion am droseddau, nodwch y llys a dyddiad y gollfarn:

2. Datganiad o wirionedd

Rwyf i/Rydym ni yn datgan bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy/ein gwybodaeth. Rwyf/rydym yn deall fy mod/ein bod yn troseddu os ydw/ydym yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdod trwyddedu yn gysylltiedig ag unrhyw un o'i bwerau dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac yr ydw/ydym yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu os ydw/ydym yn ddiofal ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

3. Prosesu data

Drwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych yn derbyn yr Hysbysiad Prosesu Data y mae modd ei ddarllen yn yr adran canllawiau. Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn gan ei fod yn nodi pam yr ydym yn casglu eich data personol, sut y caiff ei ddefnyddio a phwy y gellid ei rannu ag ef.

4. Rhannu data

Mae Rhentu Doeth Cymru a'i Bartneriaid am gysylltu â landlordiaid ac asiantau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am wybodaeth berthnasol leol (digwyddiadau fforwm, darpar denantiaid (deiliaid-contract), cyfleoedd ariannu, ac ati).

☐ **Rhowch wybod i mi - gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Rhentu Doeth Cymru.**

Datganiad o gytundeb i'r datganiadau uchod

Nodir: Ni ellir prosesu'r cais hwn heb eich cytundeb â datganiadau 1 a 2. Rhaid llenwi'r ffurflen yn gywir, ei llofnodi, ei dyddio a chynnwys y taliad am y ffioedd gyda'r ffurflen er mwyn iddi gael ei derbyn fel cais trwydded dilys. Cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru ar 03000 133344 am gymorth i lenwi'r ffurflen hon.

Bydd methu â gwneud hynny yn achosi oedi wrth brosesu ac efallai eich bod chi gweithredu'n anghyfreithlon.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y landlord unigol a enwir yn adran 1.1 neu gyfarwyddwr y cwmni, prif ymddiriedolwr neu uwch unigolyn yn elusen y landlord yn adran 1.2. Heb lofnod o'r fath ni chaiff ei ystyried yn gais cyflawn a chaiff ei ddychwelyd atoch. Bydd hyn yn achosi oedi yn eich cais am drwydded.

Llofnod _____ **Dyddiad** _____

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad canlynol:
Rhentu Doeth Cymru Blwch Post 1106, Caerdydd, CF11 1UA

Prosesu eich cais

Ar ôl ei dderbyn, gall gymryd hyd at 8 wythnos i brosesu cais wedi'i gwblhau. Byddwn yn cysylltu â chi os oes angen rhagor o wybodaeth. Sylwch: Yn ystod yr amser hwn byddwch yn parhau i dderbyn nodiadau atgoffa awtomataidd os oes disgwyl arnych adnewyddu eich trwydded.

Gwiriwch: Ydych chi wedi llenwi pob adran o'r ffurflen ac wedi amgáu

- ☐ Rhestr eiddo a reolir diweddaraf
- ☐ Tystysgrifau diogelwch ar gyfer Yswiriant Arian Cleientiaid, Indemniad Proffesiynol ac Aelodaeth o Gynllun Unioni Camweddau
- ☐ Tystysgrifau hyfforddiant i chi a'ch cyflogeion, os cânt eu cwblhau gyda darparwr awdurdodedig
- ☐ Tystysgrif gwasanaeth gwahardd data (os yw'n berthnasol)
- ☐ Siec gyda'r ffi gywir neu'r manylion cyswllt priodol wedi'u darparu

Adran 7 – Cyfle Cyfartal

Mae Rhentu Doeth Cymru am sicrhau bod ei wasanaethau ar agor i bawb. Felly, gofynnwn i chi ateb y cwestiynau canlynol i'n helpu i sicrhau bod ein gwasanaeth yn deg.

Mae'r holl gwestiynau'n wirfoddol ac ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r gwasanaeth a gewch os na fyddwch yn eu hateb. Drwy ddewis eu hateb, byddwch yn ein helpu i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ei thrin yn gyfrinachol.

Rhywedd

Gwryw ☐ Benyw ☐ Gwryw i Fenyw ☐ Benyw i Wryw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Beth yw eich oedran?

Dan 16 ☐ 16-24 ☐ 25-34 ☐ 35-44 ☐

45-54 ☐ 55-64 ☐ 65+ ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Anabledd

Gall pobl anabl gynnwys pobl â nam ar y clyw neu'r golwg, pobl ag anawsterau iechyd meddwl neu anableddau dysgu, pobl â nam symudedd neu'r rheini sydd â chyflwr iechyd hirdymor, er enghraifft: iselder, diabetes, asthma, sglerosis ymledol, HIV neu ganser.

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? Ydw (nodwch): Ydw (nodwch) ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Byddar / trwm eich clyw ☐ Nam symudedd ☐ Salwch hirdymor neu gyflwr iechyd ☐

Defnyddiwr cadair olwyn ☐ Nam / anawsterau dysgu ☐ Nam ar y golwg ☐

Anawsterau Iechyd Meddwl ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

Cyfeiriadedd Rhywiol (Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi'n 16 oed neu hŷn)

Dyn Hoyw ☐ Menyw Hoyw / Lesbiad ☐ Heterorywiol ☐

Deurywiol ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

Crefydd / Diffyg cred

Ydych chi'n ystyried eich hun i berthyn i grefydd benodol?

Ydw (nodwch) ☐ Nac ydw, dim crefydd ☐

Cristion ☐ Bwdhydd ☐ Hindŵ ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Mwslim ☐ Sikh ☐ Iddew ☐ Arall (nodwch isod) ☐

Sgiliau Iaith

Cymraeg ☐ Saesneg ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

Beth yw eich Statws Priodasol neu Bartneriaeth Sifil ? (Atebwch os ydych chi'n 16 oed neu hŷn)

Sengl ☐ Priod ☐ Partneriaeth Sifil ☐ Gofrestredig Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

Monitro Ethnig

Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Gwyn	Cymreig / Seisnig / Albanaidd Gogledd Iwerddon / Prydeinig ☐ Gwyddedig ☐ Cefndir Gwyn Arall (nodwch): ☐
Cefndir Cymysg / Aml-ethnig	Gwyn a Du Caribïaidd ☐ Gwyn a Du Africannaidd ☐ Gwyn a Asiaidd ☐ Cefndir cymysg / aml-ethnig arall (nodwch) ☐
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Indiaidd ☐ Pacistanaidd ☐ Tseineaidd ☐ Cefndir Asiaidd arall (nodwch isod) ☐ Bangladeshaidd ☐
Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	Affricanaidd ☐ Caribïaidd ☐ Cefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd Arall (nodwch isod) ☐
Cefndir Arall	Arabaidd ☐ Tsiecaidd ☐ Sipsi/Teithiwr Gwyddelig ☐ Siapaneaidd ☐ Pwylaidd ☐ Yemenïaidd ☐ Cefndir Arall (nodwch isod) ☐

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ydych chi'n feichiog neu wedi rhoi genedigaeth o fewn y 26 wythnos diwethaf?

Beichiog ☐ Wedi rhoi genedigaeth ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau Ffurflen Fonitro Rhentu Doeth Cymru.

Diwedd y ffurflen gais

Adran 8 - Canllawiau

I gefnogi tudalen 1

Gwneud cais fel Cwmni, Elusen neu Ymddiriedolaeth

Os ydych yn gwneud cais ar ran endid ffurfiol, megis cwmni, elusen neu ymddiriedolaeth, rhaid i chi sicrhau bod gan y sawl sy'n cwblhau'r ffurflen gyfrifoldeb sylweddol dros yr endid. Dylai cyfarwyddwr cwmni cwblhau'r ffurflen ar ran corff corfforaethol, ymddiriedolwr arweiniol os yw'n gwneud cais fel ymddiriedolaeth ac uwch aelod o'r elusen os yw'n gwneud cais fel elusen.

I gefnogi tudalen 2

Prif Defnyddiwr

Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi ddynodi defnyddiwr yn 'brif ddefnyddiwr'. Mae'n bwysig bod y defnyddiwr hwn yn gyfarwyddwr neu'n ymddiriedolwr arweiniol, gan y bydd gan y defnyddiwr hwn ganiatâd sy'n caniatáu iddynt ddiwygio'r cais am drwydded. Rhaid i chi ddarparu'r holl fanylion sy'n ofynnol ar gyfer y defnyddiwr hwn a rhaid i'r defnyddiwr gael hyfforddiant addas i gael ei gysylltu â'r cais.

Gall Rhentu Doeth Cymru ond trafod materion penodol i gyfrif gyda 'phrif ddefnyddiwr'. Efallai y byddwch felly yn penderfynu dynodi nifer o brif ddefnyddwyr.

Rhaid i'r prif berson fod yn rhywun â'r awdurdod i gadarnhau nad oes ganddynt, nac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r busnes, faterion i ddatgan yn y datganiad Ffitrwydd a Phriodoldeb, megis euogfarnau perthnasol.

Y prif berson fydd yn gyfrifol am weinyddu'r cyfrif, felly os bydd y prif berson yn gadael y busnes, rhaid iddynt ddynodi prif berson(au) newydd yn gyntaf i gynnal rheolaeth y cais am drwydded.

I gefnogi tudalen 4

Rhif cofrestru'r cwmni perthnasol

Dyma fyddai rhif cofrestru'r Cwmni. Yn achos Corff Corfforaethol, dyma'r rhif cofrestru a roddir gan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer y Cwmni. Ar gyfer elusen, dyma'r rhif cofrestru a roddir gan y Comisiwn Elusennau.

Mesurau Diogelu Busnes

Os ydych chi'n gweithredu fel asiant yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ddal mesurau diogelwch busnes gorfodol sy'n amddiffyn eich cleientiaid. Y mesurau diogelwch busnes sy'n ofynnol yw Diogelwch Arian Cleientiaid, Yswiriant Indemniad Proffesiynol ac aelodaeth i gynllun Gwneud Iawn a gymeradwyir gan y llywodraeth.

Mae rhai eithriadau i'r gofyniad hwn yn berthnasol pan ystyrir bod y risg yn isel oherwydd maint bach iawn y portffolio. Os credwch y gallai eithriad fod yn berthnasol i chi, cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru.

Gyda'ch caniatâd, bydd Rhentu Doeth Cymru yn dangos eich bod yn dal mesurau diogelwch busnes wrth ymyl eich cofnod cyhoeddus ar y gofrestr gyhoeddus. Trwy arddangos eich mesurau diogelwch ar y gofrestr, rydych yn sicrhau y gall tenantiaid (deiliaid-contract) a chleientiaid weithredu'n hyderus i ddewis asiant sydd wedi'i yswirio'n addas. Nid yw'r gofyniad hwn yn orfodol, ond cofiwch na fydd unrhyw fesurau diogelwch yn cael eu harddangos ar eich cofnod os ydych chi'n dewis peidio â gwneud hynny.

Gwaith Gosod a Rheoli	Os oes gennych berson cysylltiedig (a ddiffinnir yn yr adran isod) sy'n gwneud unrhyw un o'r canlynol fel rhan o'i waith mewn eiddo rhent yng Nghymru, mae angen ei hyfforddi er mwyn i chi gael trwydded: a) cyhoeddi hysbysebion neu rannu gwybodaeth; b) trefnu neu gynnal ymweliadau gyda darpar denantiaid; c) paratoi, neu drefnu i baratoi, cytundeb tenantiaeth; ch) paratoi, neu drefnu i baratoi, stocrestrau neu atodlenni amodau. d) casglu rhent; dd) bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer y tenant mewn perthynas â materion sy'n codi dan y denantiaeth; e) gwneud trefniadau gyda pherson i gyflawni gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw; f) gwneud trefniadau gyda thenant neu feddiannwr yr eiddo i gael mynediad i'r annedd at unrhyw ddiben; ff) gwirio cynnwys neu gyflwr yr annedd, neu wneud trefniadau iddo gael e wirio fel rhan o denantiaeth bresennol neu un sydd wedi dod i ben; g) cyflwyno hysbysiad o derfynu tenantiaeth.
	I gefnogi tudalen 5
Staff / Person Cysylltiedig	Os bydd unigolyn neu gwmni sy'n gwneud cais am drwydded yn cyflogi staff y mae eu gwaith yn cynnwys gwneud gwaith gosod neu reoli mewn eiddo rhent yng Nghymru, mae'n rhaid iddynt gael eu datgan ar y cais am drwydded gan yr ymgeisydd ac mae'n rhaid i bob un ohonynt gwblhau hyfforddiant asiant er mwyn i'r ymgeisydd gael trwydded. Darperir y diffiniad llawn o berson cysylltiedig yn Adran 2 o Rheoliadau Tai Rhentu Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015. Yn gyffredinol hwn yw aelod o staff rydych chi'n talu cyflog iddo neu sy'n 'gyflogai' at ddibenion y gyflogres. Nid yw pobl rydych yn eu talu am y gwasanaethau y maent yn eu darparu (e.e. contractwyr) yn cael eu cyfrif fel 'berson cysylltiedig' ac nid oes rhaid eu hyfforddi er mwyn i chi fel asiant gael trwydded.
Opsiynau hyfforddi a thystiolaeth	Rhaid i ymgeisydd a phob person cysylltiedig perthnasol ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy naill ai'n cael ei ddarparu gan Rhentu Doeth Cymru yn uniongyrchol neu drwy ddarparwr awdurdodedig allanol. Os ydych wedi cwblhau hyfforddiant gyda darparwr awdurdodedig allanol, dylech amgáu'r tystysgrifau fel rhan o'ch cyflwyniad cais. Mae'r gofynion ar gyfer hyfforddiant yn wahanol, yn dibynnu ar ba un a ydych wedi cwblhau cwrs trwydded am y tro cyntaf yn y gorffennol. Os nac ydych, mae angen i'r person gwblhau Cwrs Trwydded Asiant am y tro cyntaf. Os ydych, gall y person naill ai: 1) ailadrodd **Cwrs Trwyddedu Asiant** o fewn blwyddyn i gyflwyno cais; NEU 2) fynychu **Cwrs ail-drwyddedu Asiant** o fewn blwyddyn i gyflwyno cais; NEU 3) mynychu modiwlau hyfforddi **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

dros y cyfnod o 5 mlynedd cyn cyflwyno cais am drwydded (mae angen 80 pwynt ar gyfer trwydded asiant).

Os ydych chi'n gwneud cais fel corff corfforaethol neu ymddiriedolaeth, mae'n rhaid i chi sicrhau bod cyfarwyddwr neu ymddiriedolwr arweiniol, sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, yn gysylltiedig â'ch cais.

I gefnogi tudalen 6

Ffi'r drwydded

Mae pob cais am drwydded a wneir i Rhentu Doeth Cymru'n cynnwys ffi. Mae'n bwysig eich bod yn talu'r ffi ymgeisio gywir, gan y bydd unrhyw anghysondeb yn arwain at oedi o ran prosesu'r cais.
Mae ffioedd trwydded asiantau ar raddfa i adlewyrchu maint y portffolio.

Mae disgownt hefyd yn berthnasol os yw Asiant yn aelod o gorff proffesiynol cydnabyddedig. Ar hyn o bryd, y cyrff hyn yw: UKALA, ARLA, RICS, SafeAgent.

Mae asiant gosod tai cymdeithasol y mae ei holl weithgareddau gosod a rheoli yn ymwneud â darparu ar y cyd â phartneriaeth gosod cymdeithasol awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer y Gostyngiad Aelodaeth Broffesiynol.

Mae ceisiadau a wneir ar-lein yn elwa o ffi ostyngol. Mae'r ffioedd a nodir isod yn ymwneud â cheisiadau papur yn unig. Gellir rhannu'r rhan fwyaf o ffioedd yn ddwy ran, sy'n cynnwys tâl gweinyddol ychwanegol o £48.00. Am fwy o wybodaeth ewch i: rhentudoeth.llyw.cymru/cym/privacy-policy/

Math y cais	Nifer yr eiddo	Un taliad	Ffi a rennir
Trwydded yr asiant – yn rheoli llai nag 20 eiddo	0-4	£368	Rhan 1: £156 Rhan 2: £260
	5-10	£471	Rhan 1: £194 Rhan 2: £325
	11-20	£540	Rhan 1: £220 Rhan 2: £368
Trwydded asiant – gosod yn unig (ddim yn rheoli eiddo)	0-20 (gosod yn unig)	£368	Rhan 1: £156 Rhan 2: £260
	21+ (gosod yn unig)	Gweler y categori 21-50 isod yn ôl aelodaeth corff proffesiynol	
Trwydded asiant – **Dim** aelodaeth o gorff proffesiynol, yn rheoli 21 eiddo neu fwy	21 - 50	£3,850	Taliad cyntaf: £1,566 Y pedwar nesaf: £571
	51 - 100	£4,880	Taliad cyntaf: £1,986 Y pedwar nesaf: £723.50
	101 - 500	£6,170	Rhan 1: £2,530 Rhan 2: £3,688
	501 - 1000	£7,890	Rhan 1: £3,230 Rhan 2: £4,708
	1001+	£9,010	Rhan 1: £3,686 Rhan 2: £5,372

Trwydded asiant – **Gydag** aelodaeth o gorff proffesiynol, yn rheoli 21 eiddo neu fwy	21 - 50	£3,465	Taliad cyntaf: £1,410 Y pedwar nesaf: £513.75
	51 - 100	£4,392	Taliad cyntaf: £1,787 Y pedwar nesaf: £651.25
	101 - 500	£5,553	Rhan 1: £2,279 Rhan 2: £3,322
	501 - 1000	£7,101	Rhan 1: £2,909 Rhan 2: £4,240
	1001+	£8,109	Rhan 1: £3,319 Rhan 2: £4,838

I gefnogi tudalen 7

Hysbysiad prosesu data

Mae copi llawn o Hysbysiad Prosesu Data Rhentu Doeth Cymru ar gael yn rhentudoeth.llyw.cymru/cym/privacy-policy/ neu gellir ei roi ar gais.

Pam caiff data personol ei gasglu a'i storio fel rhan o Rhentu Doeth Cymru: Er mwyn bodloni gofynion y System Cofrestru Landlordiaid a'r Cynllun Trwyddedu fel y nodir yn Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu lunio a chynnal system sy'n ei alluogi i gasglu data.

Pa ddata personol sydd gennym a sut rydym yn ei dderbyn: Gall y mathau o ddata personol a gedwir ac a brosesir gan Rentu Doeth Cymru gynnwys:

- Manylion cyswllt gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost
- Manylion adnabod, gan gynnwys dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, rhif pasbort, rhif trwydded yrru
- Gwybodaeth am gollfarnau

Mae yna hefyd ffurflen fonitro wirfoddol i sicrhau bod Rhentu Doeth Cymru yn sicrhau bod ei wasanaeth yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau ychwanegol sy'n darparu data personol pellach, ond dim ond at ddibenion ystadegol a chyfeirio y caiff y wybodaeth hon ei phrosesu, ac yn ddienw.

Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol: Mae'n bosibl y bydd Rhentu Doeth Cymru yn prosesu data personol er mwyn bodloni ei rwymedigaethau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a gall hyn gynnwys prosesu data personol at nifer o ddibenion gan gynnwys y canlynol:

- Er mwyn cysylltu â chi
- Er mwyn rhoi cofrestriad i landlord; er mwyn rhoi trwydded i landlord neu drwydded i asiant
- I wneud asesiad o addasrwydd a phriodoldeb ymgeisydd yn unol â'r gofynion trwydded a nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014
- At ddibenion gorfodi diffyg cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014
- At ddibenion sicrhau a monitro cydymffurfiad parhaus â Deddf Tai (Cymru) 2014 gan gynnwys amodau trwydded

- At ddibenion sicrhau a monitro cydymffurfiad parhaus â'r Cod Ymarfer
- Er mwyn arddangos (i aelodau'r cyhoedd sy'n chwilio'r Gofrestr) a yw landlord wedi'i gofrestru; ac os yw'r landlord neu'r asiant (neu'r ddau), y nodwyd eu bod yn ymgymryd â thasgau gosod neu reoli yn yr eiddo, wedi'i drwyddedu
- Hwyluso cyflwyno cyrsiau hyfforddi
- Prosesu trafodion ariannol ar gyfer taliadau a wneir ar gyfer cyrsiau cost
- Cynorthwyo Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Trwyddedu i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- At ddibenion ystadegol a chyfeirio
- Mynd i'r afael ag ymholiadau ac ymateb i unrhyw anghydfodau gwirioneddol neu bosibl.
- Mewn achosion prin neu eithriadol bydd Rhentu Doeth Cymru yn defnyddio'r cyfeiriadau Eiddo Rhentu i gyfathrebu'n uniongyrchol â thenantiaid (deiliaid-contract) at ddibenion y tu allan i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 pan fo angen

Nodwch fod Rhentu Doeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, ac felly bydd yr Awdurdodau Lleol yn hygyrch i wybodaeth a gedwir gan Rentu Doeth Cymru. Yn ogystal, gall Awdurdodau Lleol rannu gwybodaeth berthnasol sydd ganddynt â Rhentu Doeth Cymru er mwyn helpu i benderfynu a yw ymgeisydd yn addas ac yn briodol i weithredu fel landlord trwyddedig neu asiant trwyddedig.

Sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw: Dim ond at ddibenion Cynllun Rhentu Doeth Cymru y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, ond ar brydiau gall Rhentu Doeth Cymru hefyd rannu data personol â sefydliadau eraill. Gellir cael rhestr lawn ar ein gwefan.

Am ba mor hir ydyn ni'n cadw'ch data personol: Ni fydd gwybodaeth a gesglir gan Rentu Doeth Cymru yn cael ei chadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol. Cyfnod cadw Rhentu Doeth Cymru yw 6 + 1 flynedd ar ôl i'r drwydded a / neu'r cofrestriad ddod i ben. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwn, bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei dinistrio'n ddiogel.

Pwy yw'r Rheolwr Data ar gyfer Rhentu Doeth Cymru: Gweithredir Rhentu Doeth Cymru gan Gyngor Caerdydd. Felly Cyngor Caerdydd yw'r Rheolwr Data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a ddarperir at y dibenion hyn. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 bob amser. I gael mwy o wybodaeth am ofynion diogelu data'r Cyngor, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data dros ebost at: diogeludata@caerdydd.gov.uk.

Eich hawliau: Gallwch arfer eich hawliau unigol, gan gynnwys mynediad at wybodaeth, cywiro gwybodaeth anghywir neu wrthwynebu prosesu eich data personol.I gael mwy o wybodaeth am eich hawliau, gallwch ymweld â caerdydd.gov.uk/diogeludata.

Taflenni Ychwanegol: Manylion hyfforddiant

Gweithiwr

Teitl | Enw cyntaf | Enw(au) canol

Cyfenw | Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) | Rôl (teitl swydd)

Dewis iaith: Saesneg ☐ Cymraeg ☐

A yw'r person hwn wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy neu wedi archebu hyfforddiant cymeradwy gyda Rhentu Doeth Cymru? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os oes, pa opsiwn hyfforddi sydd wedi'i gwblhau? ☐ Hyfforddiant trwydded gyntaf ☐ Hyfforddiant ail-drwyddedu ☐ DPP (CPD) ar gyfer adnewyddu

Os na, mae angen atodi tystiolaeth hyfforddiant* i'r ffurflen hon.

Os nad yw wedi'i gwblhau eto, pa hyfforddiant maen nhw'n bwriadu ei wneud a phryd maen nhw'n disgwyl ei gwblhau erbyn

Dyddiad

Gweithiwr

Teitl | Enw cyntaf | Enw(au) canol

Cyfenw | Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) | Rôl (teitl swydd)

Dewis iaith: Saesneg ☐ Cymraeg ☐

A yw'r person hwn wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy neu wedi archebu hyfforddiant cymeradwy gyda Rhentu Doeth Cymru? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os oes, pa opsiwn hyfforddi sydd wedi'i gwblhau? ☐ Hyfforddiant trwydded gyntaf ☐ Hyfforddiant ail-drwyddedu ☐ DPP (CPD) ar gyfer adnewyddu

Os na, mae angen atodi tystiolaeth hyfforddiant* i'r ffurflen hon.

Os nad yw wedi'i gwblhau eto, pa hyfforddiant maen nhw'n bwriadu ei wneud a phryd maen nhw'n disgwyl ei gwblhau erbyn

Dyddiad